Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Coleg Llysfasi**

**Coleg Llysfasi**
**Rhuthun**
**LL15 2LB**

## Dyddiad Cyhoeddi

**29 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Llysfasi yn goleg sy'n seiliedig ar y tir sy'n arbenigo mewn pynciau amaethyddol, cefn gwlad, coedwigaeth, a gofal a rheolaeth anifeiliaid. Mae'r coleg yn rhan o Goleg Cambria, ac mae wedi'i leoli yn Nyffryn Clwyd, ger tref Rhuthun, Sir Ddinbych. Llety Llysfasi yw'r enw ar lety coleg Llysfasi, ac mae'n darparu ar gyfer myfyrwyr llawn amser o 16 oed, ac mae wedi'i wahanu'n ardaloedd dynodedig yn ôl oed a rhyw. Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd 23 o fyfyrwyr o dan 18 oed yn defnyddio'r gwasanaeth.

Karen Senior yw'r pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr a hi yw pennaeth Llety Llysfasi hefyd. Greg Otto yw arweinydd tîm y Gwasanaethau Myfyrwyr ac ef yw rheolwr dynodedig Llety Llysfasi.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Gall y myfyrwyr fod yn hyderus y byddant yn cael budd o dderbyn gofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu llesiant. Mae'r myfyrwyr yn cael cyfleoedd i leisio eu barn am ansawdd y ddarpariaeth. Mae amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gael iddynt. Caiff y myfyrwyr eu cefnogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau o'u dewis. Mae'r staff yn dilyn rhaglen sefydlu, yn cael cymorth a'u hyfforddi mewn ffordd sy'n helpu cynnydd ar gyfer myfyrwyr ac yn gwella canlyniadau, ond nid oedd arferion recriwtio mwy diogel yn cael eu dilyn bob tro. Mae'r myfyrwyr yn byw mewn llety sy'n ddiogel ac yn lân; ond, roedd rheiddiaduron swnllyd a chyflenwad dŵr poeth annibynadwy wedi effeithio ar gysur y myfyrwyr. Ni all y myfyrwyr bob amser gael gwasanaeth yn eu hiaith gyntaf.

### 2. Gwelliannau

- Mae dodrefn newydd wedi'u prynu ar gyfer yr ystafell gemau.
- Gosodwyd ystafell ffitrwydd newydd.
- Cyflwynwyd cynlluniau datblygu unigol. Mae'r staff wedi cyfarfod â'r myfyrwyr i drafod sut roeddent yn setlo yn y llety.
- Cyflwynwyd polisi llety a oedd yn rhoi gwybodaeth ac yn cyfeirio'r myfyrwyr a'u rhieni at bolisïau perthnasol eraill.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran 5.1 o'r adroddiad hwn yn rhestru'r argymhellion ar gyfer gwella ymarfer.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Gall y myfyrwyr fod yn hyderus y byddant yn cael budd o dderbyn gofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu llesiant. Ar y cyfan, mae'r coleg wedi llwyddo i gael y wybodaeth briodol am eu hanghenion cyn iddynt gyrraedd. Mae'r myfyrwyr yn cael y cyfle i leisio eu barn am ansawdd y ddarpariaeth. Mae systemau addas ac effeithiol ar waith i gefnogi llesiant addysgol, corfforol ac emosiynol y myfyrwyr. Ni all y myfyrwyr bob amser gael gwasanaeth yn eu hiaith gyntaf.

### Ein canfyddiadau

Mae'r myfyrwyr yn teimlo'n ddiogel. Gwnaethom siarad â grŵp o 17 o fyfyrwyr a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn gwybod gyda phwy y dylent siarad os bydd angen cymorth neu arweiniad arnynt, neu os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae amrywiaeth eang o bolisïau ar waith i gefnogi llesiant y myfyrwyr, gan gynnwys y polisi amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn, a'r polisi bwlio ac aflonyddu. Mae'r pwyllgor diogelu yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i drafod materion yn y coleg, ac roedd y cyfleuster preswyl wedi'i gynnwys ar yr agenda. Roedd Llysfasi wedi rhoi polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith i atal ymddygiad gormesol ac o ganlyniad, roedd diwylliant o barchu pawb yn cael ei hyrwyddo. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael i fyfyrwyr ar bob agwedd ar eu bywydau, rydym yn argymell y dylai Llysfasi geisio cael gwybodaeth ychwanegol o fewn ffurflen manylion y myfyrwyr. Byddai hyn yn caniatáu iddynt ddewis hunan-ddatgan unrhyw wybodaeth bellach y maent o'r farn y dylai'r staff wybod amdani er mwyn rhoi'r gofal a'r cymorth gorau iddynt tra byddant yn aros yn y coleg. Gall y bobl ifanc fod yn hyderus fod polisïau, ymarferion a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod eu llesiant, eu hiechyd a'u diogelwch yn cael eu hyrwyddo.

Mae gan y myfyrwyr lais. Cadarnhawyd gennym fod ganddynt lais cadarn fel grŵp a'u bod yn gallu mynegi eu safbwyntiau'n hyderus yn y modd hwn. Gwelsom gofnodion cyfarfodydd cyngor y campws a'r cyfarfodydd preswyl a gynhaliwyd bob hanner tymor. Ymhlith yr eitemau ar agenda'r cyfarfodydd preswyl roedd arlwyo, gwaith cynnal a chadw, rheolau, rheoliadau a gweithgareddau. Dywedodd y myfyrwyr y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus i godi materion a bod y staff yn gwrando arnynt, ond nid oedd pob mater a godwyd wedi'i ddatrys yn foddhaol. Roedd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr y gwnaethom siarad â nhw yn dweud eu bod yn anfodlon ar y bwyd a ddarperir. Dywedodd pennaeth y gwasanaeth nad oedd cost cinio'n cael ei gynnwys yn y ffioedd llety bellach, ond codir tâl ar y myfyrwyr am bryd o fwyd amser brecwast a chinio o hyd. Dywedodd y myfyrwyr wrthym y byddent yn osgoi'r bwyd a weinir yn y ffreutur yn rheolaidd, ac y byddent yn teithio i'r dre i brynu eu prydau bwyd eu hunain yn lle hynny. Edrychwyd ar y fwydlen a gwelsom ei bod yn cwmpasu cyfnod o bedair wythnos. Dywedodd pennaeth y gwasanaeth wrthym mai prin oedd y cyfle i ddarparu dewis helaeth o brydau bwyd oherwydd y nifer gyfyngedig o fyfyrwyr. Dywedodd y staff wrthym, gan fod y myfyrwyr yn dewis y bwyd ymlaen llaw, os

nad oedd y fwydlen yn plesio, byddai'r staff arlwyo yn darparu dewis amgen os rhoddir digon o rybudd iddynt, ond dywedodd y myfyrwyr mai ansawdd y bwyd oedd y broblem ac nid yr amrywiaeth. Cadarnhaodd pennaeth y gwasanaeth ei fod yn ymwybodol o safbwyntiau'r myfyrwyr ac yn cynnal trafodaethau i adolygu'r bwydlenni; ond, nodwyd gennym y bod y mater wedi cael ei godi yn ystod yr arolygiad diwethaf, ac nad yw'r broblem wedi'i ddatrys yn foddhaol o hyd. Mae gan y myfyrwyr lais a chânt gyfleoedd i fynegi eu safbwyntiau, ond ni allant bob amser ddylanwadu ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

Ni all myfyrwyr bob amser gael ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Rydym yn argymell y dylai'r tîm rheoli ystyried canllawiau strategol dilynol "Mwy na Geiriau" Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol. Cadarnhawyd gennym mai dim ond un aelod o'r tîm o staff oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, er bod gan rai aelodau o'r staff wybodaeth sylfaenol o'r Gymraeg, ac ni allai eraill ddeall na siarad Cymraeg o gwbl. Dywedodd y myfyrwyr wrthym eu bod yn siomedig mai dim ond gydag un aelod o'r staff roeddent yn gallu siarad Cymraeg, a dim ond pan roedd yr aelod penodol o staff yn gweithio. Rydym yn argymell y dylai'r canllaw croeso i'r llety adlewyrchu'r wybodaeth hon er mwyn i'r bobl ifanc a'u teuluoedd gael y wybodaeth gywir o ran diffyg darpariaeth Gymraeg yn Llysfasi ar gyfer y myfyrwyr sy'n byw yn y llety. Roedd y llawlyfr a ddarperir i'r myfyrwyr a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth preswyl ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg; ond, mae angen egluro safbwynt Llysfasi o ran darparu gwasanaeth yn Gymraeg.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Mae gan y coleg bolisi disgyblu myfyrwyr teg a phriodol mewn perthynas ag ymddygiad annerbyniol a thorri'r polisi disgyblu myfyrwyr, sy'n hysbys i'r myfyrwyr, y staff a'r rhieni ac mae'n ei ddilyn. Caiff y myfyrwyr eu hamddiffyn rhag bwlio. Mae amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gael iddynt. Caiff y myfyrwyr eu cefnogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau o'u dewis.

### Ein canfyddiadau

Mae'r ffordd o ddisgyblu myfyrwyr yn deg ac yn briodol. Roedd gan y coleg God Ymddygiad Myfyrwyr a oedd yn nodi pa fathau o ymddygiad a fyddai'n arwain at ystyried cosbau, a'r cosbau y gallai'r coleg eu gweithredu. Dywedodd y staff a'r tîm rheoli wrthym fod ymddygiad y myfyrwyr yn dda ar y cyfan, a bod y cosbau yn ymddangos i fod yn rhesymol ac yn gymesur. Dywedodd y myfyrwyr wrthym fod y rheolau'n deg a'u bod yn hoffi'r staff. Mae'r myfyrwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod ganddynt gydberthynas dda â'r staff.

Rhoddir cymorth addas i'r myfyrwyr sydd â chyflyrau meddygol, anableddau neu sydd angen triniaeth arbennig neu benodol oherwydd materion iechyd neu lesiant. Gwelsom pan fydd gan y myfyriwr anghenion iechyd neu ofal personol digonol, fel bod angen ymwybyddiaeth a monitro gan sawl aelod o'r staff, roedd y coleg yn sefydlu cynllun gofal personol ar gyfer y myfyrwyr, yn ymgynghori â'r myfyrwyr a'u rhieni, a gafodd ei gyfleu i'r staff gyda'r angen i wybod ei gynnwys. Gwnaethom ddysgu fod cyflwyno'r Cynllun Datblygu Personol newydd ar gyfer pob myfyriwr yn galluogi'r staff i drafod materion o ran eu llesiant gyda phob myfyriwr yn unigol, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod angen arnynt, gan y coleg ac asiantaethau allanol arbenigol, lle y bo'n briodol. Dywedodd pennaeth y gwasanaeth wrthym fod cynlluniau i ddatblygu hyn i mewn i system gweithwyr allweddol, er mwyn i'r staff allu monitro llesiant y myfyrwyr yn fwy gofalus. Caiff anghenion y myfyrwyr eu deall, a chânt gyfleoedd i siarad â'r staff yn unigol ac i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth.

Rhoddir cymorth i'r myfyrwyr o ran eu hanghenion iechyd corfforol, emosiynol a seicolegol. Roedd gan y myfyrwyr fynediad at y meddyg teulu lleol os oedd angen, ac roedd gan y coleg dîm cynghori ar iechyd rhywiol. Roedd y gwasanaeth cymorth i fyfyrwyr ar gael i ddarparu cymorth ac arweiniad i'r myfyrwyr, roedd nifer o'r tīm gwasanaeth cymorth i fyfyrwyr yn gweithio fel staff yn y cyfleuster preswyl, gan gynnwys arweinydd y tîm. Roedd hefyd gynghorydd, gwasanaeth caplaniaeth, tiwtoriaid personol ac adran sgiliau astudio. Mae amrywiaeth o wasanaethau ar gael i gefnogi anghenion corfforol ac emosiynol y myfyrwyr.

Mae gan y myfyrwyr ddewis o weithgareddau wythnosol. Gwelsom fod y myfyrwyr yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a defnyddio cyfleusterau lleol y tu allan i'r coleg. Roedd aelodau o'r staff yn gyfarwydd â diddordebau'r myfyrwyr a sut roeddent yn hoffi treulio eu hamser, a chadarnhaodd y myfyrwyr fod amrywiaeth dda o weithgareddau'n cael eu cynnig a bod y staff yn ymgynghori â nhw o ran eu dewisiadau. Roedd y gweithgareddau wedi cynnwys bowlio, Laser Quest, pledu paent a gwib-gertio, a dywedodd y myfyrwyr eu bod yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'i gilydd. Yn y llety, gwelsom y myfyrwyr yn yr ardaloedd cymunedol, ac roeddent yn brysur naill ai'n chwarae pŵl, yn sgwrsio â'i gilydd neu'n chwarae ar ddyfeisiau electronig.  Er mwyn cadw'r bobl ifanc yn ddiogel, roedd un aelod o'r staff yn eu hebrwng ar weithgareddau i ffwrdd o Lysfasi.  Mae'r myfyrwyr yn egnïol a gallant wneud pethau sy'n bwysig iddynt.

## 3. Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Crynodeb

Mae gwybodaeth berthnasol ar gael i'r myfyrwyr a'u rhieni, ond dylid cynnwys rhagor o fanylion am y gwasanaeth. Mae strwythur rheoli ac arwain yn y cyfleuster preswyl ac mae cyswllt atebolrwydd gweladwy; ond, ni chafodd hyn ei nodi yn y llawlyfr myfyrwyr. Mae'r staff yn dilyn rhaglen sefydlu, yn cael cymorth a'u hyfforddi mewn ffordd sy'n helpu cynnydd ar gyfer myfyrwyr ac yn gwella canlyniadau, ond nid oedd arferion recriwtio mwy diogel yn cael eu dilyn bob tro. Dylid rhoi ystyriaeth i adolygu ansawdd y gofal a ddarperir a llunio cynllun datblygu.

### Ein canfyddiadau

Ar y cyfan, gall y myfyrwyr a'u teuluoedd fod yn glir am yr hyn y mae'r gwasanaeth yn bwriadu ei ddarparu. Roedd y datganiad o ddiben, yr egwyddorion a'r llawlyfr myfyrwyr yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol a pherthnasol; ond, nid oedd gwybodaeth o ran y strwythur arwain a rheoli, nac ychwaith wybodaeth am y staff. Nid oedd unrhyw wybodaeth am ddarpariaeth Gymraeg. Roedd y myfyrwyr yn gallu ymweld â'r llety gyda'u rhieni cyn iddynt gael eu derbyn, a chynhaliwyd cyfarfod cyn derbyn. Roedd hwn wedi rhoi'r cyfle iddynt gwrdd â'r staff, y tîm rheoli a'r myfyrwyr eraill. Roedd y cyfarfod hefyd wedi mynd i'r afael â'r rheolau a'r gweithdrefnau mewn perthynas â'r cyfleuster preswyl. Dywedodd y myfyrwyr wrthym eu bod wedi cael eu croesawu yn ystod y cyfarfod cyn derbyn. Mae’r myfyrwyr yn ymwybodol o’r gofal, y cymorth a’r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ac yn eu deall, ond dylai rhagor o wybodaeth fod ar gael.

Mae digon o staff sy'n meddu ar y profiad a'r wybodaeth berthnasol. Gwnaethom siarad â'r staff a'r tîm rheoli, a gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi cwblhau cyfnod sefydlu ar gyfer eu rôl. Roedd hwn wedi helpu'r staff yn deall eu rolau ac yn eu cyflawni mewn perthynas ag amcanion a chyfrifoldebau'r gwasanaeth. Yn ogystal, roedd llawlyfr swyddogion, a oedd yn cynnwys y wybodaeth ofynnol i'r staff gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol, ac roedd gwefan mewnrwyd i'r staff gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y coleg. Roedd staff yn gweithio yn y gwasanaeth rhwng nos Sul a bore dydd Gwener. Lluniwyd y rotâu staffio ymlaen llaw. Roedd chwe aelod o staff preswyl yn y tîm, ac roedd dau aelod o'r staff ar ddyletswydd gyda'r hwyr bob nos ac roedd y ddau aelod yn cysgu yn y gwasanaeth dros nos. Rhoddwyd gwybod i'r myfyrwyr pa aelodau o'r staff oedd ar ddyletswydd a ble byddent yn yr adeilad. Roedd swyddfa gan y staff lle roeddent yn ymgynnull, ond roeddent yn cael te gyda'r myfyrwyr, swper am 9:00 pm, ac roeddent yn cerdded drwy'r adeilad i sicrhau bod y myfyrwyr yn iawn yn ystod eu sifft nos. Roedd y myfyrwyr yn rhoi gwybod i'r staff os oeddent yn mynd allan gyda'r hwyr ac yn cwblhau ffurflen a oedd yn cynnwys amser gadael a dychwelyd i'r adeilad. Roedd y staff wedi sicrhau bod pob myfyriwr wedi dychwelyd i'r adeilad ar amser penodol ac roeddent yn

ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn petai myfyriwr ar goll. Roedd y staff wedi cwblhau cofnod o ddigwyddiadau yn ystod pob sifft. Roedd pob aelod o'r staff yn cyflawni dwy ddyletswydd un wythnos, ac un ddyletswydd yr wythnos ganlynol. Roedd trefniadau staffio wrth gefn ar waith er mwyn cyflenwi staff a oedd yn sâl neu'n absennol, ac roedd aelodau o'r tîm yn cyflawni sifftiau ychwanegol, neu roedd aelodau eraill o'r staff, gan gynnwys pennaeth y gwasanaeth, yn cyflawni dyletswyddau preswyl yn ôl yr angen. Dywedodd pennaeth y gwasanaeth wrthym fod hyn wedi sicrhau bod ganddi wybodaeth ymarferol am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu, a'i bod yn gallu ymgysylltu â'r myfyrwyr yn uniongyrchol. Mae'r myfyrwyr yn cael budd o wasanaeth lle mae'r staff yn gwybod sut i gyflawni eu rolau a lle gwneir y defnydd gorau o adnoddau.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant mewn meysydd penodol yn unol â'r datganiad o ddiben, ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o amrywiaeth o anghenion y myfyrwyr. Archwiliwyd y matrics hyfforddiant a gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys Cymorth Cyntaf; rhwystro corfforol; diogelu; diogelwch tân; cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Gwelsom gofnodion o ddamweiniau a oedd wedi cael eu llofnodi gan y staff a'r rhieni. Ymhlith eitemau'r agenda roedd llesiant y myfyrwyr, cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu ac iechyd a diogelwch. Yn ogystal, cynhaliwyd trafodaethau am yr angen i gwblhau'r llyfr cofnodion, ac am drefnu gweithgareddau ar gyfer y myfyrwyr. Roedd hwn yn gyfle i'r staff gyd-fyfyrio ar eu hymarfer ac unrhyw faterion a allai fod wedi codi. Roedd y staff wedi cyfarfod â'u rheolwyr llinell ar gyfer arfarniad blynyddol, a oedd yn cynnwys trafodaethau o ran perfformiad ac anghenion hyfforddi. Dywedodd y tîm rheoli a'r staff wrthym nad oedd sawl cyfarfod goruchwylio wedi cael eu cynnal, ond dywedodd aelod o'r staff wrthym fod y tîm rheoli yn hawdd mynd atynt, yn gefnogol a'u bod ar gael bob amser i gael cyfarfodydd unigol, os oedd angen. Mae'r myfyrwyr yn cael budd o wasanaeth lle caiff llesiant y staff ei werthfawrogi, a lle caiff y staff eu harwain, eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda.

Ni ellir rhoi tawelwch meddwl i'r myfyrwyr na'u rhieni bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn o ran cael y wybodaeth ofynnol ar gyfer y staff cyn iddynt gael eu cyflogi. Roedd gwiriadau uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ar gyfer y staff, ac roedd yr adran Adnoddau Dynol (AD) yn gyfrifol am atgoffa pan fyddai angen eu hadnewyddu. Fodd bynnag, archwiliwyd ffeiliau dau aelod newydd o staff a gwelsom mai dim ond un geirda a gafwyd am bob un, ac nid oedd un yn cynnwys y cyflogwr diwethaf. Gwelsom fod y coleg wedi anfon llythyr geirda i ofyn am wybodaeth ynglŷn â'r aelod o staff ond nid oedd y cyflogwr blaenorol wedi ymateb. Gwnaethom argymell y dylai'r tîm rheoli gadw at eu harferion diogel, polisïau recriwtio a chanllawiau arfer gorau ei hun i sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth fel y nodir. Ni all y bobl ifanc fod yn hyderus bod y broses archwilio a monitro cofnodion a dogfennaeth yn effeithiol.

Nid oes gan y gwasanaeth broses hunanasesu reolaidd i ddadansoddi ansawdd y ddarpariaeth. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn ymwybodol o'r polisi cwynion ac roedd gwybodaeth am hyn ar gael yn y llawlyfr. Dywedodd y myfyrwyr wrthym eu bod yn codi materion neu'n siarad â'r staff a'r tîm rheoli yn uniongyrchol yn y cyfarfodydd preswylwyr

heb wneud cwynion ffurfiol. Roedd y tîm rheoli yn ymwybodol o safbwyntiau'r myfyrwyr ar rai agweddau ar y gwasanaeth, ond ni chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol wrth gasglu adborth. Cytunodd pennaeth y gwasanaeth y gallai dosbarthu arolygon dienw i'r myfyrwyr, eu rhieni/gofalwyr ac aelodau o'r staff ennyn rhagor o wybodaeth, y gellid ei defnyddio i asesu ansawdd ac ysgogi gwelliannau. Roedd y rheolwyr wedi defnyddio egwyddorion meincnodi ac wedi ymweld â cholegau preswyl eraill i rannu arferion da. Gwnaethom ddysgu bod rheolwr y gwasanaeth wedi mynd i ddigwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus Rheolwyr Gwasanaeth Preswyl Landex. Roedd y gynhadledd wedi cynnwys cyflwyniadau gan arbenigwyr, gan gynnwys cynghorydd arbenigol ar ofal preswyl OFSTED, a thaith o amgylch darpariaeth breswyl y coleg sy'n lletya. Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i sicrhau ansawdd a gwella, ond mae angen datblygu hyn ymhellach i sicrhau bod asesiad ansawdd effeithiol yn cael ei gynnal, a bod rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth.

## 4. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r myfyrwyr yn byw mewn llety sy'n ddiogel ac yn lân; ond, roedd rheiddiaduron swnllyd a chyflenwad dŵr poeth annibynadwy wedi effeithio ar gysur y myfyrwyr ar adegau.

### Ein canfyddiadau

Tra byddant yn lletya, gall y myfyrwyr a'u rhieni fod yn hyderus bod llety boddhaol yn cael ei ddarparu sy'n cael ei gynnal a'i gadw, sy'n lân ac yn ddiogel rhag mynediad diawdurdod gan y cyhoedd. Roedd trefniadau priodol ar waith i wahanu myfyrwyr gwryw a benyw, a myfyrwyr o dan a dros 18 oed. Roedd gan bob myfyriwr ei ystafell wely ei hun, a oedd yn weddol fawr ac wedi'i ddodrefnu'n briodol. Roedd sawl ystafell wely yn cynnwys cawodydd en-suite, ond roedd yr ystafelloedd heb y rhain yn cynnwys toiled a chyfleusterau ymolchi preifat ac addas. Roedd gan y myfyrwyr lety cysgu boddhaol a oedd yn cynnwys dodrefn addas, ac roedd adrannau gwahanol o ran rhyw ac oedran i'w diogelu.

Mae amrywiaeth o ardaloedd hamdden ar gael i'r myfyrwyr. Cawsom ein tywys o gwmpas y cyfleusterau a gwelsom y ddwy ystafell gemau, y ffreutur a'r ystafell ffitrwydd. Roedd un o'r ystafelloedd gemau'n cynnwys bwrdd pŵl, a thennis bwrdd, ac roedd consolau gemau yn yr ystafell arall. Roedd y llety wedi'i baentio a'i addurno i safon foddhaol, ac roedd wedi'i ddodrefnu'n ddomestig. Roedd gan y staff swyddfa benodol a rhoddwyd gwybod i'r myfyrwyr pa ystafelloedd gwely y byddai'r staff yn eu defnyddio ar bob sifft. Ym mhob bloc preswyl, roedd cegin a oedd yn cynnwys tegell, tostiwr, oergell a microdon. Gall y myfyrwyr wneud pethau drostynt eu hunain, treulio amser gyda'i gilydd, astudio'n breifat a chael cyswllt â'r staff.

Gall y myfyrwyr fod yn hyderus bod y safle a'r cyfarpar yn ddiogel. Roedd gan y myfyrwyr ffobiau allwedd i fynd i mewn i'w hystafelloedd gwely eu hunain a'r ardaloedd cymunedol, ac roedd y safle'n ddiogel rhag mynediad diawdurdod. Cadarnhawyd gennym yn y cofnodion bod yr arferion iechyd a diogelwch wedi'u cwblhau'n effeithiol, megis asesiadau risg ac asesiadau tân, larwm dân, goleuadau argyfwng a gwiriadau trydanol i sicrhau bod yr amgylchedd yn aros yn ddiogel i'r myfyrwyr a'r staff. Gwelsom dystysgrifau'r gwiriadau blynyddol ar gyfer y gwres a dyfeisiau cludadwy, a thystysgrifau ymarferion tân a'r offer diffodd tân. Gwnaethom ddysgu bod 40 o ddrysau tân newydd yn cael eu gosod yn llety'r bobl ifanc er mwyn gwella'r amgylchedd, ac i fodloni'r safonau iechyd a diogelwch presennol. Dywedodd y myfyrwyr wrthym fod rhai o'r rheiddiaduron gwres canolog wedi bod yn swnllyd iawn yn ystod y nos a'u bod wedi tarfu ar eu cwsg. Dywedwyd y rhoddwyd gwybod am hwn ym mis Hydref 2018 ond nad oedd y mater wedi'i ddatrys. Dywedodd y tîm rheoli wrthym eu bod wedi ymateb i'r adroddiadau, ond nad oedd y cwmni a gyflogir i ymchwilio i'r mater wedi dod o hyd i achos y sŵn hyd yma. Roedd hyn wedi arwain at fyfyriwr yn gorfod symud ystafell, ond nid oedd hyn wedi datrys y broblem yn llwyr, gan fod

modd clywed y sŵn mewn ystafelloedd eraill. Roedd y myfyrwyr hefyd wedi rhoi gwybod nad oedd digon o ddŵr poeth ar gyfer y cawodydd ambell waith. Dywedodd y tîm rheoli wrthym mai'r math o system dŵr poeth a osodwyd yn yr eiddo oedd y rheswm dros hyn, a'i bod yn gobeithio yr eir i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol, gan y byddai systemau mwy modern ac ecogyfeillgar yn cael eu gosod. Fodd bynnag, doedd dim amserlen bendant ar gyfer hyn ac nid yw'n ymdrin â'r problemau y mae'r myfyrwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn yr eiddo. Mae'r myfyrwyr yn gweithio ar y tir a gydag anifeiliaid; felly, mae cael mynediad at gyfleusterau i gael cawod yn hanfodol. Gall y myfyrwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth fod yn hyderus y caiff eu hiechyd a'u diogelwch eu hybu ar y cyfan, ond ni ellir sicrhau eu cysur bob amser mewn rhai ardaloedd.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Argymhellion ar gyfer gwella

- Sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn o ran cael y wybodaeth ofynnol ar gyfer y staff cyn iddynt gael eu cyflogi.
- Mynd i'r afael â materion y myfyrwyr o ran ansawdd y bwyd a ddarperir, a'r problemau ynglŷn â'r rheiddiaduron swnllyd a'r cyflenwad dŵr poeth annibynadwy yn y blociau preswyl.
- Datblygu prosesau sicrhau ansawdd i fonitro a gwerthuso canlyniadau ar gyfer y myfyrwyr, ystyried safbwyntiau'r myfyrwyr, eu rhieni/gofalwyr a'r staff, a darparu adolygiad a chynllun datblygu.
- Cynnwys manylion am y strwythur rheoli a'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn y llawlyfr myfyrwyr.
- Rydym yn argymell y dylai'r tîm rheoli ystyried canllawiau strategol dilynol "Mwy na Geiriau" Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd yn unol â fframwaith arolygu AGC. Gwnaethom gynnal ymweliad dirybudd â Llety Llysfasi ar 5 Chwefror 2019, a chawsom gyfarfod â'r staff a gweld cofnodion yng nghampws Glannau Dyfrdwy.

Defnyddiwyd y ffynonellau gwybodaeth canlynol i lywio'r adroddiad hwn:

- Gwnaethom adolygu gwybodaeth am y gwasanaeth a ddelir gan AGC.
- Arsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r myfyrwyr.
- Gwnaethom siarad â grŵp o 17 o fyfyrwyr.
- Nid oedd y rheolwr yn bresennol; ond, gwnaethom siarad â phennaeth y gwasanaeth; pennaeth campws Llysfasi; dau aelod o staff ar ddyletswydd; y pennaeth cyllid; y pennaeth iechyd a diogelwch ac aelod o'r adran Adnoddau Dynol.
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ddogfennaeth, gan gynnwys y Datganiad o Ddiben, y Canllaw i Fyfyrwyr, ac amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau.
- Archwiliad o'r cofnodion yn ymwneud â diogelwch y safle.
- Gwnaethom archwilio'r safle, gan gynnwys yr ardaloedd cymunedol.
- Gwelsom sampl o ffeiliau'r staff a dogfennaeth yn ymwneud â derbyn myfyrwyr i'r gwasanaeth.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Coleg Addysg Bellach** |
| **Person(au) Cofrestredig** | **Karen Senior** |
| **Rheolwr** | **Greg Otto** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **40** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **06/05/2014 a 07/05/2014** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **05/02/2019** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nac ydy** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |